

**Arolygiad o Ddarparwr
Gofal Iechyd Annibynnol
(Ile rhoddwyd rhybudd)
Clinig Menywod Llundain
(Caerdydd)**

15 Medi 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Methodoleg.....	3
Cyd-destun	4
Crynodeb.....	5
Canfyddiadau	6
Ansawdd Profiad y Claf	6
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	11
Camau Nesaf.....	12
Atodiad A.....	13

Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canlyniadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

¹Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau y maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

Methodoleg

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar y cyd gyda'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol. Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth a gasglwyd gan y ddau sefydliad. Oherwydd natur gyfrinachol a sensitif y gwasanaeth hwn, ni wnaeth AGIC siarad â chleifion unigol ar yr achlysur hwn. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom gasglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio'r offer a'r amgylchedd (ar y cyd gyda'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol)
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan
- Holiaduron cleifion AGIC (ar y cyd gyda'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol)

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai ddeillio o arolygiad yn cael eu hysbysu i ddarparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau yn cofnodi ciplun o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

²Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Dyma'r achos lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses diffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

Cyd-destun

Mae Clinig Menywod Llundain (Cymru) Cyf. wedi'i gofrestru i ddarparu ysbyty annibynnol yn 15 Plas Windsor, Caerdydd, CF10 3BY. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau ffrwythlondeb i gleifion dydd sy'n oedolion. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf ar 3 Medi 2012.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau feddyg ymgynghorol, tri embryolegydd, pum nyrs, un cwnselydd, a dau gynorthwydd gweinyddol. Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

- Ffrwythloni in vitro (IVF)
- Chwistrellu sberm yn fewnsytoplasmig (ICSI)
- Semenu mewngroth (IUI)
- Wyau rhoddwyr, sberm rhoddwyr (o fanc wyau yn y DU)
- Rhewi wyau a sberm
- Sesiynau cwnsela
- Grŵp cymorth
- Benthyc croth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r gwasanaeth ar 15 Medi 2015. Cynhaliwyd yr arolygiad ar y cyd gyda'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol.

Crynodeb

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi'i gynllunio, ei ddatblygu, ei adolygu, a'i weithredu i sicrhau bod hawliau cleifion a'u rhyddid i wneud dewisiadau yn cael eu hybu a'u parchu. Gwelsom fod safbwyntiau cleifion wedi'u ceisio a'u hystyried wrth adolygu a gwella gwasanaethau. Roedd yn amlwg bod cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'u triniaeth, ac roedd gwasanaeth cwnsela yn cael ei gynnig yn rheolaidd er mwyn cefnogi lles corfforol a meddyliol y cleifion.

Yn gyffredinol, sicrhawyd AGIC bod Clinig Menywod Llundain yn darparu triniaeth a gofal diogel ac effeithiol i gleifion, yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt, ac yn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofnodi ac archwilio ystod o arferion yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella, a oedd yn ofynnol er mwyn bodloni Cyfarwyddeb Meinweoedd Ewrop 2004, a bydd yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn sicrhau gwelliannau yn y meysydd hyn.

Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y clinig yn monitro'i berfformiad er mwyn nodi lle y gallent wneud gwelliannau i driniaeth a gofal y cleifion. Er inni ddarganfod bod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal, nid oedd unrhyw ganlyniadau na gwelliannau pendant wedi'u cofnodi o ganlyniad i'r archwiliadau. Ni nodwyd unrhyw bryderon ynglŷn â lefelau staffio, recriwtio, cadw staff neu hyfforddiant.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr arolygiad, sef rhai agweddau ar ddogfennau, cydsyniad, a gwiriadau diogelwch. Er nad yw'r materion hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau gweithredu ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd y gallai methiant i wneud hynny arwain at AGIC yn cymryd camau gweithredu yn unol â'n proses diffyg cydymffurfio a gorfodi.

.

Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi'i gynllunio, ei ddatblygu, ei adolygu, a'i weithredu i sicrhau bod hawliau cleifion a'u rhyddid i wneud dewisiadau yn cael eu hybu a'u parchu. Gwelsom fod safbwyntiau cleifion wedi'u ceisio a'u hystyried wrth adolygu a gwella gwasanaethau. Roedd yn amlwg bod cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'u triniaeth, ac roedd gwasanaeth cwnsela yn cael ei gynnig yn rheolaidd er mwyn cefnogi lles corfforol a meddyliol y cleifion.

Ymgysylltu â Dinasyddion ac Adborth (Safon 5)

Cyn yr arolygiad, dosbarthodd yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol holiaduron cleifion, mewn ymdrech i gael dealltwriaeth o brofiad y claf. Yn ddieithriad, roedd yr holl ymatebion a wnaed gan y cleifion yn ganmoliaethus o ran eu profiadau yn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd y byddai rhai cleifion yn gwerthfawrogi mwy o wybodaeth unigoledig, ac nid oedd hyn wedi cael ei nodi yn archwiliad mewnol y clinig a gyweiniodd barn y cleifion. Roedd y gwasanaeth ei hunan yn defnyddio Survey Monkey (rhaglen arolwg ar-lein) er mwyn cywain barn y cleifion. Gwnaethom drafod gyda'r rheolwr cofrestredig y defnydd o holiaduron papur, fel y gallai cleifion nad oedd ganddynt fynediad i'r rhynggrwyd leisio'u barn. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ddatgan bod y canfyddiadau a geir o'r ymatebion yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd staff a'u bod yn gweithredu ar unrhyw bryderon. Rhoddwyd enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi cael eu gwneud yn unol â cheisiadau gan gleifion.

Dywedwyd wrthym hefyd bod y clinig yn cynnal diwrnodau agored bob mis yn Abertawe a Chaerdydd er mwyn i ddarpar gleifion ymweld â staff a siarad yn gyfrinachol â nhw.

Cynllunio a Darparu Gofal (Safon 8)

Gwnaethom ystyried cofnodion triniaeth pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac arsylwi ar sut roedd pobl yn derbyn triniaeth. Gwelsom fod pobl yn cael dewisiadau a bod gweithdrefnau/canlyniadau yn cael eu hesbonio. Roedd cofnodion gofal a thriniaeth wedi'u diweddarau ac yn adlewyrchu'r nifer o weithiau roedd claf a'u partner wedi mynychu'r clinig ar gyfer triniaeth neu ymgynghoriad. Rhoddwyd cynlluniau triniaeth (ar ffurf llythyrau) i'r claf ar ddiwedd yr ymgynghoriad a oedd yn esbonio sut roedd cleifion i fod i ofalu amdanynt eu hunain. Roedd y cydsyniad gofynnol i driniaeth wedi cael ei gwblhau, a chwblhawyd ffurflen gyfrinachedd yn unol â gofyniadau cyfreithiol.

Gwybodaeth a Chydsyniad Cleifion (Safon 9)

Gwelsom fod system electronig ar gyfer cywain gwybodaeth bersonol a meddygol gan gleifion. Yn ystod archwiliad o ffeiliau cleifion, arsylwyd nad oedd gan unrhyw ddogfennau sganiedig ddynodwyr cleifion ar bob tudalen, ac, mewn rhai achosion, nid oedd yr hanes a gofnodwyd yn cyfateb i gofnodion eraill. Er enghraifft, nodwyd ar un dudalen hanes bod gan glaf alergedd, ond ni chofnodwyd hyn na rhoi sylw iddo mewn unman arall yn y cofnodion, gan gynnwys yn yr asesiad cyn-lawdriniaeth. Nid ellid sicrhau i'r tîm arolygu bod yr holl ddogfennaeth mewn gwirionedd yn ymwneud â'r claf hwnnw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r person cofrestredig sicrhau bod lles a diogelwch y cleifion yn cael eu cadw gan ddogfennaeth sy'n eglur, cyson ac yn benodol i'r unigolyn.

Trafodwyd cydsyniad, lles plant, a ffurflenni datgelu cyfrinachol (oedd wedi cael eu cwblhau gan gleifion) gyda'r nyrsys cyn i gleifion gwrdd â'r ymgynghorydd. Gwnaeth y cydsyniad hefyd amodi rhannu gwybodaeth gyfrinachol am resymau archwilio neu ymchwil. Er bod cydsyniad cyffredinol yn eglur, canfuom feysydd lle roedd cydsyniad mwy penodol yn aneglur – er enghraifft, o ran storio a gwaredu gametau.³ Mae angen adolygu'r maes hwn er mwyn gwella a chynnal hawliau cleifion i urddas, preifatrwydd a pharch.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r person cofrestredig archwilio cofnodion er mwyn sicrhau bod pob claf wedi cydsynio i'r trefniadau cytûn ar gyfer storio a gwaredu gametau.

Urddas a Pharch (Safon 10)

Roedd polisïau preifatrwydd ac urddas, a chydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael. Roedd yr amgylchedd yn darparu ardaloedd preifat ac agored fel ei gilydd ar gyfer cleifion ac aelodau teulu a/neu gefnogwyr a oedd yn gwmni iddynt.

Pan gawson ein tywys o amgylch y clinig, gwnaethom sylwi bod y staff yn cnocio ar ddrysau cyn mynd i mewn, a phan oedd pobl yn derbyn gofal clinigol, roedd arwydd 'yn brysur' wedi'i osod ar y drws a/neu roedd y caeadau ar baneli gwydr arsylwi'r drysau ar gau. Gwnaeth hyn sicrhau bod urddas a pharch cleifion yn cael eu cadw.

³ Celloedd atgenhedlu yw gametau (celloedd rhyw). Sberm yw gametau gwryw ac ofa (wyau) yw gametau benyw.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom arsylwi rhyngweithio rhwng staff a chleifion a oedd yn mynychu'r gwasanaeth y diwrnod hwnnw. Gwnaethom arsylwi un claf a'i phartner yn ymadael wrth inni gyrraedd, a gwelsom fod nyrs yn mynd â nhw i'r dderbynfa, lle siaradodd aelod o'r tîm derbynfa â nhw a gwirio bod amseroedd apwyntiadau pellach yn gyfleus, a chynigiodd ddewis o wahanol slotiau amser a oedd ar gael iddynt. Roedd yr awyrgylch cyffredinol yn gyfeillgar ac yn groesawgar.

Cyfathrebu'n Effeithiol (Safon 18)

Rhodddwyd copi cyfredol o ddatganiad o ddiben a chanllawiau defnyddwyr y gwasanaeth inni. Mae'r rhain yn ddogfennau sy'n nodi'r telerau gwasanaeth a gynigir, y tîm staff, adolygiad o'r gwasanaeth, a chanlyniadau'r ymgysylltu â chleifion. Roedd y ddau'n cynnwys y wybodaeth ofynnol.

Roedd dim ond ychydig o bosteri a thafleuni gwybodaeth wedi'u harddangos er mwyn hysbysu pobl ynglŷn â'r gwahanol driniaethau ac opsiynau roedd y clinig yn eu cynnig. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig, a ddywedodd wrthym fod 'pecyn croeso' wedi'i anfon at gleifion arfaethedig a oedd yn cynnwys y manylion perthnasol. Rhodddwyd pecyn sampl inni, ac roedd y cynnwys yn cadarnhau bod y wybodaeth yn gyfredol a'i bod yn cynnig canllawiau ynglŷn â dewis o driniaethau, costau, a sut i leisio pryder pe bai angen.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yn gyffredinol, sicrhawyd AGIC bod Clinig Menywod Llundain yn darparu triniaeth a gofal diogel ac effeithiol i gleifion, yn seiliedig ar ganllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt ac sy'n cydymffurfio â rheoliadau diogelwch. **Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofnodi ac archwilio ystod o arferion o fewn y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella a oedd yn ofynnol er mwyn bodloni Cyfarwyddeb Meinweoedd Ewrop 2004, a bydd yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn sicrhau gwelliannau yn y meysydd hynny.**

Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol (Safon 7)

Gwelsom fod y driniaeth a'r gofal yn seiliedig ar ganllawiau arferion gorau y cytunwyd arnynt. Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain gan ymgynghorwyr, ond roedd unrhyw driniaeth ragnodedig yn cael ei gwirio gan ddwy nyrs cyn ei gweinyddu. Rhoddwyd taflenni gwybodaeth i gleifion o ran eu triniaeth unigol ar ôl pob ymgynghoriad. Gwnaeth yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol rannu gwybodaeth arbenigol gydag AGIC, a nododd fod rhai meysydd yn bod a oedd yn peri pryder, megis tystio rhai gweithdrefnau clinigol, sicrhau bod sgrinio cyn-fynychu yn cael ei gynnal gan ymarferwyr achrededig ac o fewn amserlenni wedi'u gosod, a dogfennu rhai gweithdrefnau clinigol yn fwy eglur. Ceir rhagor o wybodaeth gan wefan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (www.hfea.gov.uk).

Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed (Safon 11)

Roedd gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn ddiogelu gyfredol ar waith. Cawsom ein hysbysu na fu unrhyw bryderon na digwyddiadau diogelu hyd yn hyn nac yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu.

Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio (Safon 13)

Roedd amserlenni ar waith ar gyfer glanhau, ac roedd contractau ar gael ar gyfer gwastraff clinigol a chynnal a chadw'r cyfleusterau.

Rheoli Meddyginiaethau (Safon 15)

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i leihau'r posibilrwydd o unrhyw gangymeriad meddygol. Dim ond gan y nyrsys roedd mynediad i god y cabinet meddyginiaethau, a newidiwyd y cod hwn yn rheolaidd (h.y. pan oedd unrhyw aelod staff wedi ymadael â'r gwasanaeth). Roedd polisïau a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau effeithiol ar gael. Roedd system ar waith a sicrhodd fod dwy nyrs yn gwirio'r cyffuriau rheoledig ddwywaith bob dydd a bod swyddog atebol allanol o chwaer-wasanaeth yn ymweld â'r clinig er mwyn archwilio'r cyffuriau rheoledig. Roedd cyfleuster archebu a rhestru stoc electronig, a oedd yn cael ei wirio'n

wythnosol. Gwnaethom wirio'r broses ar gyfer gweinyddu meddyginiaethau i gleifion fynd â nhw adref, a chanfuom fod y system yn ddiogel ond bod angen i'r daflen wybodaeth i gleifion a gynhwysir ym mhob blwch fod yn benodol i bob gwneuthurwr. Byddai hyn yn sicrhau bod gan y claf y wybodaeth gywir mewn perthynas â'r gwneuthurwr pe bai adwaith tybiedig i'r cyffuriau.

Dyfeisiau, Offer a Systemau Diagnostig Meddygol (Safon 16)

Roedd contractau cynnal a chadw ar waith o ran y cyfarpar. Roedd cofnodion gwiriadau diagnostig dyddiol ar gael, a oedd yn gynhwysfawr, ar gyfer y peiriannau. Gwelsom fod y peiriant anesthetig yn cael ei wirio'n ddyddiol gan y nyrsys, ond nid oedd unrhyw lofnod i gadarnhau bod hyn wedi cael ei wneud. Fe'n hysbyswyd hefyd gan yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol nad oedd batri gan y laryngosgop ar y troli brys ac felly ni ellid ei ddefnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal, sy'n cynnwys gwirio bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio.

Ymdrin â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau (Safon 23)

Gwnaethom drafod am leisio pryder gyda'r rheolwr cofrestredig, a dywedwyd wrthym fod cwynion swyddogol yn cael eu cyfeirio at y brif swyddfa yn Llundain. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, byddent yn ceisio mynd i'r afael â phryderon/cwynion ar lefel leol, a byddai hyn gyda'r ymgynghorydd arweiniol. Roedd system i gofnodi manylion unrhyw ymchwiliad, ynghyd â'r canlyniad ac unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd. Hefyd, roedd system ar gyfer gwerthuso pryderon a digwyddiadau. Gwnaethom ystyried un pryder parhaus, a gwelsom fod yr ymatebion yn brydlon ac yn bodloni polisi a gweithdrefn gwyno'r cwmni. Nid oedd y polisi cwyno ar gael yn rhwydd (er ei fod wedi'i gynnwys yn y canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth), a gwnaethom drafod ynglŷn ag ychwanegu hwn i'r 'pecyn croeso' yn ogystal â'i wneud yn weladwy yn y dderbynfa.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod y clinig yn monitro'i berfformiad er mwyn nodi lle y gallent wneud gwelliannau i driniaeth a gofal y cleifion. Er inni ddarganfod bod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal, nid oedd unrhyw ganlyniadau na gwelliannau pendant wedi'u cofnodi o ganlyniad i'r archwiliadau.

Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd (Safon 1)

Roedd yr unigolyn cyfrifol (y person â chyfrifoldeb dirprwyedig ar gyfer rhedeg y clinig) a'r rheolwr cofrestredig yn bresennol ar ddiwrnod yr ymweliad. Roedd y ddau'n weladwy, ac roedd y cleifion a'r staff yn ei chael yn hawdd mynd atynt.

Roedd nifer o archwiliadau misol wedi cael eu cynnal, gan gynnwys rheoli heintiau, adolygu archwiliad dogfennaeth, a rheoli heintiau.

Nid oed AGIC wedi derbyn unrhyw hysbysiadau Rheoliad 30/31. (Hysbysiadau yw'r rhain ynglŷn ag unrhyw ddigwyddiadau anffodus.) O drafod gyda'r rheolwr cofrestredig, nodwyd nad oedd y staff yn ymwybodol o'r angen i hysbysu AGIC. Yna, dywedwyd wrthym am ddigwyddiad rheoli meddyginiaeth a allai fod wedi arwain at anaf i glaf (ni fu anaf). Cafodd ei ddogfennu a'i hysbysu'n briodol o fewn y strwythur hysbysu sefydliadol, ond ni hysbyswyd AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid hysbysu AGIC am unrhyw honiad o gamymddwyn sy'n arwain at anaf posibl neu wirioneddol i glaf.

Recriwtio i'r Gweithlu ac Arferion Cyflogaeth (Safon 24)

Roedd arfarniadau staff yn nodi bod gan y tîm staff presennol gynllun datblygiad personol er mwyn diwallu anghenion a nodwyd. Roedd hyfforddiant staff yn barhaus o fewn y clinig. Nid oedd pryder ynglŷn â lefelau staffio, recriwtio na chadw staff. Nid oedd defnydd o asiantaethau nyrsio wedi bod ers blynyddoedd maith. Cafodd anesthetyddion eu recriwtio trwy asiantaeth, ac er mwyn cadw dilyniant i gleifion, cafodd yr un staff eu contractio'n barhaus.

Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran Ansawdd Profiad y Claf, Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol, a Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yng Nghlinig Menywod Llundain (Cymru) Cyf. yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth: **Clinig Menywod Llundain (Caerdydd)**

Dyddiad yr arolygiad: **15 Medi 2015**

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
Tudalen 7	Mae angen i'r person cofrestredig sicrhau bod lles a diogelwch y cleifion yn cael eu cadw gan ddogfennaeth sy'n eglur, cyson ac yn benodol i'r unigolyn.	Rheoliad: 23	Bydd dogfennaeth yn cynnwys adnabod cleifion ar yr holl ddogfennau a grëwyd a storiwyd. Bydd rhybuddion yn cael eu gosod ar ffeiliau i gadw lles a diogelwch cleifion. Cynhelir archwiliad erbyn Ionawr 2016 er mwyn adolygu'r newid mewn arferion.	Dr Hemlata Thackare, Person Cyfrifol i'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol	15.01.2016
Tudalen 7	Mae angen i'r person cofrestredig archwilio cofnodion i sicrhau bod y cleifion i gyd wedi cydsynio i'r trefniadau cytûn ar gyfer storio a	Rheoliad 40(2)	Mae'r tîm labordy yn archwilio'r cofnodion cydsynio i storio a gwaredu gametau/embryonau yn rheolaidd. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y mae	Jeanette Mackenzie, Rheolwr Labordy	Yn barhaus ac yn rheolaidd

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	gwaredu gametau.		gametau/embryonau yn cael eu cadw mewn storfa tu hwnt i'r cyfnod storio cydsyniedig, gan fod gwaredu gametau'n weithdrefn barhaol ddi-droi'n-ôl. Ar adeg yr adroddiad hwn, roedd gan un cwpl yn unig wyau mewn storfa heb gydsyniad gan eu bod yn y 'cyfnod oeri'. Mae'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol yn ymwybodol o'r achos hwn.		
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 10	Mae angen i'r person cofrestredig sicrhau bod y staff yn llofnodi bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal, sy'n cynnwys gwirio bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio.	Rheoliad 15(2)	Mae staff wedi'u hatgoffa i gynnal gwiriadau priodol, gyda llofnodion i gadarnhau bod y cyfarpar yn addas i'w ddefnyddio. Mae rhestrau gwirio a ffurflenni wedi cael eu hadolygu i sicrhau hyn. Cynhelir archwiliad yn Ionawr 2016 i adolygu'r newid mewn arferion.	Ms Anne Fisher, Rheolwr y Nyrsys	20.01.2016
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
Tudalen 11	Mae'n rhaid hysbysu AGIC am unrhyw honiad o gamymddwyn sy'n	Rheoliad 30/31	Nodwyd hyn yn briodol er mwyn gweithredu arno yn y dyfodol.	Dr Hemlata Thackare,	Ar unwaith

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
	arwain at anaf posibl neu wirioneddol i glaf.			Person Cyfrifol i'r Awdurdod Ffrwythlonde b ac Embryoleg Dynol	

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Ms Anne Fisher

Teitl: Rheolwr y Nyrsys a'r Rheolwr Cofrestredig i AGIC

Dyddiad: 04.11.2015